

# Cael Trwydded Deledu

## Pethau sydd angen i chi eu gwybod am y Drwydded Deledu

Efallai y byddwch eisiau rhywun rydych yn ei adnabod i edrych ar y daflen yma gyda chi er mwyn gallu ei thrafod.

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU



# Gallwch wylio teledu mewn llawer o ffyrdd gwahanol:



Ar set deledu



Ar gyfrifiadur neu liniadur



Ar ffôn symudol neu dabled (fel iPad neu Samsung Galaxy)



Defnyddio bocs digidol sy’n gweithio gyda’ch teledu (fel Sky neu Virgin)



Defnyddio peiriant recordio Blu-ray, DVD neu fideo




Gyda chonsol gemau (fel PlayStation neu Xbox)

**Mae arnoch angen Trwydded Deledu i:**

- wylio neu recordio rhaglenni teledu yn fyw ar unrhyw sianel; neu
- lawrlwytho neu wylio unrhyw raglenni’r BBC ar BBC iPlayer – yn fyw, wrth ddal i fyny neu ar alw.

# Mae Trwydded Deledu yn costio £169.50




Os ydych dros 75 mlwydd oed ac yn derbyn Credyd Pensiwn, fe allech gael Trwydded Deledu am ddim.



Os ydych yn ddall (â nam difrifol ar eich golwg) fe allech gael Trwydded Deledu am hanner pris.



Os ydych yn byw mewn cartref gofal fe allech dalu llai am Drwydded Deledu.



I gael cymorth neu fwy o wybodaeth ewch i:

**tvl.co.uk/easyread**

neu ffoniwch

**0300 790 6042**



## Mae yna wahanol ffyrdd o brynu Trwydded Deledu

**Gallwch ddefnyddio eich cerdyn debyd neu gredyd**

Cofiwch gael eich cerdyn wrth law cyn dechrau.

Ffoniwch ni ar **0300 790 6042**
Ewch i **tvl.co.uk/pay**



## Gallwch drefnu Debyd Uniongyrchol

Gallwch dalu cyfanswm cost eich trwydded unwaith y flwyddyn neu dalu symiau llai bob mis.

Gallwch hefyd dalu bob chwarter, unwaith bob tri mis. Oherwydd eich bod yn talu am y rhan fwyaf o'ch trwydded ar ôl iddi gael ei hanfon, byddwn yn codi £1.25 ychwanegol bob tri mis am hyn.

I drefnu Debyd Uniongyrchol gyda ni, cofiwch fod â rhif eich cyfrif a'ch côd didoli wrth law cyn dechrau.

Ffoniwch ni ar **0300 790 6042**
Ewch i **tvl.co.uk/pay**

PayPoint

## Talwch gydag un taliad mewn unrhyw PayPoint

Gallwch dalu gydag arian parod neu ddefnyddio eich cerdyn debyd mewn unrhyw PayPoint. Mae'r rhain i'w cael mewn llawer o siopau, siopau papurau newydd ac archfarchnadoedd. Dywedwch wrth y sawl sydd y tu ôl i'r cownter eich bod eisiau talu am Drwydded Deledu.

Fe fyddan nhw'n gofyn am eich enw, eich cyfeiriad a'ch côd post. Fe fyddan nhw'n gofalu am y gweddill wedyn.

## Neu talwch symiau llai mewn unrhyw PayPoint

Gallwch rannu cost eich Trwydded Deledu hefyd. Ond yn gyntaf, rhaid i chi gael cerdyn talu Trwyddedu Teledu gennym. Ffoniwch 0300 555 0286 i gael eich cerdyn chi. Yna gallwch ddefnyddio'r cerdyn yma i dalu bob wythnos neu bob mis gydag arian parod neu gerdyn debyd mewn unrhyw PayPoint. Gallwch hefyd dalu dros y ffôn, trwy neges testun, neu ar lein.

Yn Ynysoedd y Sianel neu ar Ynys Manaw, gallwch dalu yn eich swyddfa bost leol.



## Gallwch anfon siec atom yn y post

Rhaid i'r siec fod am swm llawn y Drwydded Deledu. Cofiwch ysgrifennu eich enw a'ch cyfeiriad ar y cefn.

Anfonwch y siec at:

**TV Licensing, Darlington DL98 1TL**



## Beth i'w wneud os nad oes arnoch angen Trwydded Deledu

Cofiwch:

- os nad ydych yn gwylio neu'n lawrlwytho unrhyw raglenni'r BBC ar BBC iPlayer; ac
- os nad ydych yn gwylio neu'n recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel

does arnoch ddim angen Trwydded Deledu.



Os nad oes arnoch angen trwydded, rhowch wybod i ni drwy ffonio **0300 790 6042** neu drwy fynd i **tvl.co.uk/noTV**




# Beth fydd yn digwydd os nad oes gennych drwydded a chithau angen un



Efallai y byddwn yn anfon Swyddog Trwyddedu Teledu i'ch cartref i weld a oes arnoch angen trwydded.



Os na fyddwch yn cael Trwydded Deledu pan fydd arnoch angen un fe fyddwch yn torri'r gyfraith. Mae hyn yn golygu y gallech gael ymweliad gan Swyddog Ymholi Trwyddedu Teledu a chael eich erlyn a dirwy o hyd at £1,000.



# A oes arnoch angen rhagor o gymorth?

Ffoniwch ni ar **0300 790 6042**.

Neu gallwch fynd ar lein i gael gwybod mwy am gael Trwydded Deledu. Ewch i **tvl.co.uk/easyread**

**Gohebiaeth yn Gymraeg?** Rydym yn croesawu eich galwadau, e-byst a llythyrau yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg. Mae'r amseroedd ymateb yr un fath ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Ewch i **tvlicensing.co.uk/cymraeg**

© TV Licensing 2017

TVL/PR/ER/04/24/6W Updated 04/24